## Mari Ellis a

# SIÔN SIENCYN y Bardd Bach

Mae'n anodd i ni heddiw amgyffred y dryswch a achoswyd, yn y flwyddyn 1752, o ganlyniad i ddiwygio'r calendr yn Lloegr er mwyn cydymffurfio â'r un Gregoraidd. Golygodd hyn fod y dyddiau o'r ail o fis Medi hyd y pedwerydd ar ddeg yn cael eu hanwybyddu, a'r calendr yn cofnodi'r deuddegfed o'r mis fel yr ail. Gwnaeth hyn stomp llwyr o'r dyddiadau sefydlog, megis y Nadolig a Gwyliau'r Saint, a oedd yn cael llawer mwy o sylw yn yr oes honno. Dyna paham y gwelwn gyfeirio at yr Hen Galan, hen Wyl Fair ac yn y blaen.

Cafodd Siôn Siencyn, y Bardd Bach o Gwm-du ger Castellnewydd Emlyn ei ysgogi i lunio dau englyn 'dychymyg' neu englynion pôs ar yr achlysur.

**Dychymyg ar y mis a'r flwyddyn 1752**

Ym mha fis myn hysbysau – yn ufudd
Bu nifer o Ddyddiau
Heb Ser na Lloer i'n gwellau
A gweled Haul na golau?

Gwaith ni wnaeth undyn dan do – na sôn
Am Sul i weddïo,
Ni chysgodd dyn un hun, ho!
Is wybr nes aeth heibio.

*Siôn Siencyn, Medi 14, 1752*


Mae'r englynion i'w cael yn llawysgrifen y bardd ar ddechrau llawysgrif o dros dri chan tudalen, wedi'i rwymo'n gelfydd mewn hanner lledr a'r teitl *Gwaith y Bardd Bach* ar y meingefn. Oddi mewn ceir teitl arall, *Cydymaith i'r Awen*, a'r cynnwys yn waith '...y Beirdd mwyaf godidawg o'r Deheudir', heblaw llawer iawn o waith Siôn Siencyn ei hun.

Mae'n dechrau trwy roddi amlinelliad o'i fywyd a'i yrfa. Fe'i ganed ar 20 Mawrth 1716, yn fab i Siencyn Tomos, crydd o'r Cwm-du. Nid crydd cyffredin mohono yn ôl pob sôn. Yr oedd yn berchen tyddyn, yr oedd yn bregethwr ffraeth ac yn brydydd toreithiog, heblaw bod yn gyfaill i Theophilus Evans, awdur *Drych y Prif Oesoedd*. Yn 1754 aeth Siôn Siencyn i gadw ysgol Griffith Jones, Llanddowror. Yr oedd eisoes wedi dechrau ysgrifennu *Cydymaith i'r Awen* yn 1752 gyda'r ddau englyn a ddyfynnwyd uchod, eithr ymesgusoda am ddiffygion y llawysgrif...

> 'o ddiffyg amser cyfleus i mi, mi sgrifennais y rhan fwyaf o'r Llyfr hwn pan fyddai'r plant o'm hamgylch.'

Erbyn iddo orffen, yn 1790, yr oedd yn byw yn Aberteifi. Dyma ei restr o'r beirdd 'mwyaf godidawg': Ifan Gruffydd o'r Twr Gwyn, Troed yr Aur; Alban Thomas, curad Blaen-porth a Thremain; Siencyn Tomos o Gwm-du, sef ei dad; Iefan Tomas o Lanarth a'r Parchedig Ucheldysg Mr Iefan Iefans o Ledrod.

Ar y diwedd ychwanega eu bod oll wedi marw, ac eithrio ef ei hun, '...ac os gwelaf y 20ed Dydd Fawrth nesaf mi fyddaf i 75. 1790'.


Clywch fenediau, glochfwynddol,
A i rhosymmol, mewn rhyw swm?
I ddail India, ddala undyn?
yn gyflogddyn, glun yn glwm?
Rhyw gyfflybioth, o ddewiniaeth,
A ddalia eu hydoliaeth, hwy,
A gaffo eu hymsawr, megis trysawr,
Odid mawr, eu gwadu mwy.
2
Swyn y dyli, syn eu dala,
Y sain leia, fia i ni lwl,
ymgais ffashwn, megis ffisig,
A byw 'n ddebig, i'r byd ddwl,
Lle mysg digrodd, gynt ddo'i ganodd.

*Tudalen alla o Cydymaith yr Awen yn dangos llawysgrifen y Bardd Bach*

Ar wahân i Evan Evans, Lledrod, sef Ieuan Brydydd Hir, beirdd gwlad, lleol yw'r gweddill, ac y mae nifer o brydyddion eraill yn cael eu cynrychioli yma, heblaw'r rhai a enwyd, yn cynnwys Nathaniel brawd Siôn Siencyn. Yr hyn sy'n arbennig am Alban Thomas yw mai ef yw awdur *Cân o senn i'w hen Feistr Tobacco*. (1718). Hwn oedd y llyfr Cymraeg cyntaf i'w gyhoeddi gan wasg Gymreig, (yn swyddogol, beth bynnag) sef Gwasg Trerhedyn, Adpar, Castellnewydd Emlyn. Mae'r gân ar dudalennau 9 hyd 13 yn *Cydymaith i'r Awen*; yn nes ymlaen ceir un arall ganddo *'Cân i byscodwyr Llechryd'* lle'r ychwanegodd Siôn Siencyn 'Alban Tomas cyn ei fod yn offeiriad'.

Gwnaeth y Bardd Bach gymwynas â ni trwy gyhoeddi ffrwyth awen beirdd Dyffryn Tywi yn y ddeunawfed ganrif. Ym marn yr Athro Geraint H. Jenkins dyma'r ardal '...fwyaf cyfoethog ei diwylliant ac effro ei meddwl yng Nghymru' yn y cyfnod.

Daeth *Llyfr y Bardd Bach* i feddiant John Jenkins, Ifor Ceri (1770-1829). Yr oedd ef yn gasglwr gweithiau'r beirdd gwlad ac alawon gwerin ers pan oedd yn fyfyriwr. Brodor o Langoedmor, heb fod ymhell o Aberteifi ydoedd, yr hynaf o bum brawd, pob un yn alluog mewn gwahanol ffyrdd ac yn gerddorion a chantorion. Gan eu bod yn mynychu eglwys Llangoedmor yr oeddent yn gyfarwydd â'r Salm-donau, emyn-donau, anthemau a'r carolau plygain. Yr oedd caneuon ysgafn y ffeiriau'n gynefin iddynt a gweithiau'r beirdd gwlad yn adnabyddus. Pethau i'w cymryd yn ganiataol oedd y rhain yn ystod mebyd Ifor Ceri, ond yr oedd yn gerddor digon craff a'i chwaeth lenyddol yn ddigon sicr iddo sylweddoli y gallai'r cwbl fynd yn angof oni bai fod rhywun yn eu casglu a'u cofnodi. Dyna paham y trysorodd lawysgrif Siôn Siencyn, prydydd a adnabu'r beirdd y casglodd eu gweithiau a'r bardd olaf o'r Deheudir i fynd ar daith glera adeg y Nadolig. Dyma bennill sy'n enwi'r plasdai a roes groeso iddo:

Bendithied Duw atteg Cwmgloyn a Chilwendeg
A'r Pentre rydd anrheg yn fwyndeg i fi;
A'r Pantgwyn yw'r pedwar, lle'r af yn 'wyllysgar
Y Gwyliau yn gynnar i ganu.

Ifor Ceri, mae'n fwy na thebyg a gafodd rwymo'r llawysgrif mewn hanner lledr a rhoi *Gwaith y Bardd Bach* ar y meingefn. *Cydymaith i'r Awen* y galwai Siôn Siencyn ei gasgliad. Ychwanegodd rai o gerddi'r Bardd Bach o'i gasgliad ei hun at y llawysgrif a gorffennodd y mynegai a ddechreuodd Siôn Siencyn.

Yn sgil llwyddiant yr eisteddfodau taleithiol yn nawdegau'r ganrif, gwelodd gyfle i gyhoeddi detholiad o gerddi beirdd ei sir enedigol. Un o amcanion sefydlu'r eisteddfodau hynny oedd cael arian i gyhoeddi a hyrwyddo llyfrau Cymraeg. Rhoes Ifor Ceri y gorchwyl o gasglu'r detholiad a'i olygu i John Howell, ysgolfeistr o Lanymddyfri, yntau'n fardd gwlad ac yn gerddor. Gwahoddwyd ef i Ficerdy Ceri ym mis Ionawr 1821 i ymuno â'r beirdd a'r cerddorion a groesawai yno bob Calan. Yno, uwchben llawysgrif y Bardd Bach dechreuodd y ddau ar y gwaith o ddewis cerddi ar gyfer y detholiad. Aeth John Howell â'r llawysgrif adre gydag ef ac erbyn 1823 yr oedd ganddo gasgliad teilwng o weithiau beirdd Dyfed. Cyhoeddwyd *Blodau Dyfed* yn 1824 a'i gyflwyno i'r Archddiacon Thomas Beynon, noddwr Siôn Siencyn a chyfaill i awduron llyfrau Cymraeg. Nid oes cofnod yn unman pwy a gafodd y weledigaeth i alw'r detholiad yn *Blodau Dyfed*. Mae'n hawdd credu mai Ifor Ceri a'i dewisodd gan mai ei hoff gyfrol ef oedd *Blodeu-gerdd Cymry* (1759), detholiad Dafydd Jones o Drefriw o weithiau beirdd yr ail ganrif ar bymtheg. *Blodau Dyfed* yw'r llyfr cyntaf i gynnwys detholiad o waith beirdd cyffredin un sir. Byddai hyn wedi bod yn ymffrost i Siôn Siencyn dlawd.

Yr oedd ei lawysgrif ymhlith gwaddol lenyddol Ifor Ceri pan werthwyd ei eiddo ar ddiwedd y ganrif. Fe'i prynwyd gan Syr John Williams. Pan sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth yn 1911 rhoes Syr John ei gasgliad enfawr o lawysgrifau i ffurfio'r casgliad sylfaenol. Yno yn eu plith mae *Gwaith y Bardd Bach* ac fe'i nodir yng nghyfrol gyntaf y Catalog o Lawysgrifau a gyhoeddwyd yn 1921. Dywedir yno mai'r Prifathro J.H. Davies a olygodd y Catalog, 'as a labour of love'. Dyna olynydd teilwng i Ifor Ceri a Siôn Siencyn, dau a ystyriai eu gorchwylion hwythau'n llafur cariad.

## Crochenwaith Ynys Meudwy

*Parhad o dudalen 9*

gynhyrchu gan W. T. Holland yn Ynysmeudwy ac yn Llanelli ar yr un pryd?

Felly, mae'r ddadl yn parhau rhwng casglwyr y llestri hyn ynglŷn â lle yn union y cynhyrchwyd rhai o'r patrymau. Ai yn Ynysmeudwy neu yn Llanelli?

Eto yn ei llyfr, dywed Dilys Jenkins fod y patrwm *'Rio'* wedi ei gynhyrchu yn Ynysmeudwy, ond gallai fod y darnau gyda'r marc WTH fod wedi eu cynhyrchu yn Llanelli neu hyd yn oed yn Ynysmeudwy wedi iddo gael ei brynu gan WTH yn 1870.

Mae wedi ei gofnodi fod nifer o'r platiau copr a brynwyd gan Llanelli heb eu defnyddio a bod steil y llestri a gynhyrchwyd ganddynt ar ôl 1877 wedi newid yn ddramatig. Parhaodd W. T. Holland i gynhyrchu briciau, pibellau pridd a.y.y.b. tan tua 1879 pan gaewyd y crochendy am byth.